

Heddlu De Cymru

Gwybodaeth Am Gydraddoldeb

Mehefin 2015



Cynnwys

Cyflwyniad 3

- A. Deddf Cydraddoldeb 2010 A Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 3
- B. Proffil Heddlu De Cymru a'i Gymunedau 5
- C. Cyflwyniad gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru 6
- D. Nodiadau Ystadegol Cyffredinol er mwyn Helpu i Ddehongli'r Tablau 7

Gwybodaeth am Gydraddoldeb..... 9

- 1. Dioddefwyr Troseddau 9
- 2. Troseddau casineb 11
- 3. Cam-drin Domestig 16
- 4. Stopio a Chwilio 20
- 5. Y ddalfa..... 24
- 6. Gwybodaeth am y Gweithlu 28
- 7. Cysylltiadau ac Adborth 64

Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn amrywiaeth o fformatau amgen ar gais:

Ffôn :- 01656 655555

E-bost :- HR.HELPDESK@south-wales.pnn.police.uk

Cyflwyniad

A. Deddf Cydraddoldeb 2010 A Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Cyflwyniad

Cael eich trin yn deg mewn modd anwahaniaethol yw'r hawl sylfaenol sydd gan bawb ac y mae pawb yn ei haeddu. I Heddlu De Cymru mae o'r pwys pennaf a dyna pam, wrth ddarparu ein gwasanaethau plismona, rydym yn ymrwymedig i wneud popeth o fewn ein gallu er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ac yn bodloni disgwyliadau'r nifer fawr o gymunedau amrywiol yn ein hardal.

Cenhadaeth Heddlu De Cymru yw 'Cadw De Cymru'n Ddiogel' a'n gweledigaeth yw sicrhau mai 'ni yw'r gorau am ddeall ac ymateb i anghenion ein cymunedau'. Rhennir y genhadaeth a'r weledigaeth gan y Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Dyletswyddau'r Ddeddf Cydraddoldeb

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (rheoliadau'r Dyletswyddau Penodol yn y DU) mae'n ofynnol i ni gyhoeddi gwybodaeth i ddangos sut rydym yn cydymffurfio â'r dyletswyddau i wneud y canlynol:

- a) dileu gwahaniaethu ac aflonyddu
- b) datblygu cyfle cyfartal
- c) meithrin cysylltiadau da rhwng pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol.

Mae'r Ddeddf yn diffinio nodweddion gwarchodedig fel a ganlyn:

- Oedran
- Anabledd
- Rhyw
- Ailbennu Rhywedd
- Priodas neu bartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd neu famolaeth
- Hil
- Crefydd neu Gred
- Cyfeiriadedd rhywiol

Y Wybodaeth a Gyflwynir

Mae'r wybodaeth ar y tudalennau canlynol yn cynnwys data sydd wedi'u casglu ers mis Ebrill 2009. Lle y bo'n bosibl cyflwynir y data hyn mewn blyneddoddd ariannol llawn e.e. 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014. Cafodd y wybodaeth ei diweddarau ym mis Mehefin 2015 er mwyn cynnwys blwyddyn lawn o ddata o'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015.

Rydym yn cydnabod bod y gwaith o gasglu a chyflwyno ein data yn mynd rhagddo. Ar gyfer rhai meysydd o'n gwaith, nid oes data ar gael yn hawdd a, lle mae ar gael, efallai nad

yw'n bosibl eu casglu ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig ar hyn o bryd. Rydym yn parhau i nodi bylchau a mynd i'r afael â hwy dros amser.

Comisiynydd y Gymraeg

Cyhoeddir gwybodaeth fonitro mewn perthynas â'r iaith Gymraeg ar wahân i'r ddogfen hon, sef Gwybodaeth am Gydraddoldeb, ac mae ar gael yn www.south-wales.police.uk.

B. Proffil Heddlu De Cymru a'i Gymunedau

Rydym yn darparu gwasanaeth 24 awr, bob diwrnod o'r flwyddyn i sicrhau ein bod bob amser yn hygyrch ac yn gallu darparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion ein cymunedau.

Mae ein hardal blismona yn pontio ffiniau saith awdurdod unedol, sef Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Abertawe, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Castell-nedd Port Talbot a Bro Morgannwg. Mae'r ardal blismona wedi'i rhannu'n bedair Uned Reoli Sylfaenol sy'n rheoli plismona ar lefel leol ac mae'n cynnwys 42% o boblogaeth Cymru.

O fewn ein hardal blismona sy'n cynnwys 1,283,651 o drigolion¹, mae 49.1% wedi nodi eu bod yn ddynion a 50.9% wedi nodi eu bod yn ferched. Yn ogystal â'r 1,283,651 o drigolion, rydym yn cydnabod bod yr ardal blismona'n cynnwys nifer fawr o fyfyrwyr Prifysgol, amcangyfrif o 100,430², na chânt eu cynnwys yn nata'r cyfrifiad. Mae de Cymru hefyd yn denu sawl miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn, a Chanolfan Mileniwm Cymru yng Nghaerdydd yw'r atyniad twristiaeth mwyaf poblogaidd yng Nghymru.

Mae dosbarthiad oedran y boblogaeth yn ne Cymru yn gymharol gyfartal, gyda 29.9% yn cynrychioli'r grŵp oedran o dan 25, 45.8% yn cynrychioli'r grŵp oedran 25-59 a 24.3% yn cynrychioli'r grŵp oedran 60+. Nododd 18.4% fod ganddynt rywfaent o Gymraeg llafar neu ysgrifenedig. Dangosodd data Cyfrifiad 2011 fod 22.9% o'r trigolion o fewn yr ardal blismona wedi nodi bod ganddynt salwch hirdymor sy'n effeithio ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Yn ne Cymru, mae 4.6% o'r boblogaeth yn bobl economaidd weithgar³ sy'n ddi-waith, sy'n arwydd o lefel yr amddifadedd.

Dangosodd data'r Cyfrifiad fod 6.6% o'r boblogaeth yn ne Cymru wedi nodi bod eu cefndir ethnig yn perthyn i leiafrif ethnig, gyda 15.3% o'r boblogaeth yng Nghaerdydd a 6% yn Abertawe yn nodi bod ganddynt gefndir lleiafrifoedd ethnig.

Nododd y gyfran uchaf o drigolion (53.8%) eu bod yn Gristnogion a nododd 34.9% nad oedd ganddynt unrhyw grefydd. Nododd nifer fach eu bod yn Fwdhaidd, Hindŵaidd, Iddewig, Mwslimaidd a Sikh.

Nid oes data ystadegol ar gael i'r cyhoedd ar y nifer wirioneddol o bobl yn ne Cymru sy'n nodi eu bod yn drawsrywiol, sy'n cynnwys pobl drawsryweddol a thrawswisgwyr, gan na chaiff gwybodaeth ei chasglu ar hyn o bryd drwy'r Cyfrifiad nac unrhyw gyfrif arall o'r boblogaeth. Mae Heddlu De Cymru yn cydweithio'n agos â Trawsrywiol Cymru, TAWÉ Butterflies, MTF Cymru a Chymdeithas Trawsrywiol Genedlaethol yr Heddlu.

Gan nad yw data'r Cyfrifiad yn gofyn i drigolion nodi eu cyfeiriadedd rhywiol, ni cheir data caled ar nifer y bobl hoyw, lesbiaidd a deurywiol yn y DU. Fodd bynnag, mae Actiariaid y Llywodraeth yn amcangyfrif bod 6% o'r boblogaeth yn hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol⁴.

¹ Data Cyfrifiad 2011

² Data Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch 2011/12

³ Mae'r term **economaidd weithgar** yn cyfeirio at bobl 16-74 oed sy'n gweithio neu sydd ar gael i weithio.

⁴ Stonewall Cymru

C. Cyflwyniad gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru

Cyhoeddais Gynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddau ym mis Ebrill 2013 ac yn ystod y ddwy flynedd diwethaf bûm yn gweithio gyda'm tîm a'r Prif Gwnstabl i gyflawni'r blaenoriaethau ynddo. Mae'r Prif Gwnstabl a minnau yn ymrwymedig i sicrhau bod Heddlu De Cymru yn darparu gwasanaeth teg ac ymatebol, sy'n parchu amrywiaeth ac yn deall cydraddoldeb. Dyna pam mae un o'r blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun yn dwyn y teitl 'Tegwch, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Thlodi'.

O fewn y maes hwn â Blaenoriaeth, pwysleisir bod angen annog pobl i roi gwybod am ddigwyddiadau casineb, yn ogystal â gwella lefelau boddhad dioddefwyr y rhai sy'n rhoi gwybod am ddigwyddiadau casineb. Mae'r Cynllun hefyd yn ymrwymo i annog mwy o amrywiaeth ymhlith cyflogaion Heddlu De Cymru er mwyn i ni allu cynrychioli ein cymunedau amrywiol yn well. Ar y cyd â'r Prif Gwnstabl, rydym yn gwneud cynnydd yn y meysydd hyn. Er enghraifft, yn 2014 gwnaethom gwblhau 'adolygiad thematig' ar y cyd o brosesau Recriwtio, Datblygu a Chadw Pobl Dduon a Phobl o Leiafrifoedd Ethnig, ac mae hyn wedi arwain at lunio Cynllun Gweithredu tair blynedd i ddatblygu'r mater pwysig hwn ym mhob rhan o Heddlu De Cymru. Yn 2015 byddwn yn cynnal adolygiad tebyg o faterion sy'n ymwneud â rhyw.

Mae Cynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddau hefyd yn cynnwys blaenoriaeth ar gyfer 'Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched'. Rwyf am weithio i gynyddu nifer yr achosion o gam-drin domestig y rhoddir gwybod amdanynt gan unigolion a phartneriaid ac rwy'n awyddus i ddatblygu'r gwaith rydym yn ei wneud gyda phartneriaid ac asiantaethau cyfiawnder troseddol er mwyn gwella ein gwasanaeth i ddioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol. Cyhoeddwyd Cynllun ar y Cyd Heddlu De Cymru ar gyfer 'Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched' ym mis Mehefin 2014 ac rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod ei flwyddyn gyntaf. Datblygwyd y Cynllun yn dilyn 'adolygiad thematig' cynhwysfawr a gynhaliwyd ar y cyd gennym ar fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched o fewn Heddlu De Cymru. Nododd yr adolygiad lawer o feysydd o arfer da, ond hefyd feysydd lle y dylid canolbwyntio ar wella – gan gynnwys drwy waith partneriaeth. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi meithrin cysylltiadau cryf â phartneriaid ac wedi datblygu prosiectau arloesol i annog pobl i roi gwybod am achosion o gam-drin domestig, yn enwedig yn y sector lechyd, er enghraifft.

Mae gan y Prif Gwnstabl a minnau ddyletswyddau statudol i ddileu gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb ym mhob un o'n swyddogaethau. Mae rhywfaint o'r wybodaeth a nodir yn y ddogfen hon yn cysylltu â'r blaenoriaethau yng Nghynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddau, tra bod gwybodaeth arall yn hanfodol bwysig i asesu pa mor dda y mae'r heddlu yn cyflawni ei ddyletswyddau cydraddoldeb. Yn ddiau, mae lle i wella bob amser, ond rwy'n gobeithio y bydd y tryloywder sy'n cael ei hyrwyddo drwy gyhoeddi'r data hyn yn ennyn hyder y cyhoedd ein bod yn ymrwymedig i weithio tuag at ddarparu gwasanaeth plismona teg ac effeithiol i bawb yn ne Cymru.

Y Gwir Anrh Alun Michael
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru

CH. Nodiadau Ystadegol Cyffredinol er mwyn Helpu i Ddehongli'r Tablau

1. Rhoddir gwybodaeth am wasanaethau a ddarperir ar gyfer blynyddoedd ariannol, e.e. mae 2014-15 yn cyfeirio at y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015.
2. Dengys llawer o dablau ddata yn ôl Unedau Rheoli Sylfaenol. Mae Heddlu De Cymru wedi'i rannu'n bedair Ardal neu Uned Rheoli Sylfaenol. Mae'r rhain yn ffiniau daearyddol y rhennir dyletswyddau plismona gweithredol yn unol â hwy. Y pedair ardal yw:
 - Yr Uned Reoli Sylfaenol Ogleddol (Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful)
 - Yr Uned Reoli Sylfaenol Ddwyreiniol (Caerdydd)
 - Yr Uned Reoli Sylfaenol Ganolog (Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg)
 - Yr Uned Reoli Sylfaenol Orllewinol (Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe)
3. Mae gwybodaeth am y gweithlu fel yr oedd ar 31 Mawrth 2015. Dangosir y wybodaeth hon ar gyfer pedwar grŵp o staff, sef
 - Swyddogion yr Heddlu
 - Staff yr Heddlu (cyflogeion nad ydynt yn swyddogion yr heddlu nac yn swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu)
 - Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs)
 - Cwnstablaid Cynorthwyol (aelodau o'r cyhoedd sy'n wirfoddolwyr sy'n gwisgo lifrai ac yn arfer pwerau llawn yr heddlu pan fyddant ar ddyletswydd).
4. Dengys data troseddau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-15 fod cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y troseddau a gofnodwyd. Mae hyn i'w briodoli i'r penderfyniad i gyflwyno proses a elwir yn 'cofnodi troseddau yn y tarddle' ym mis Ebrill 2014. Cyn mis Ebrill 2014 dim ond ar ôl i swyddog fynd i'r lleoliad, ymchwilio i'r digwyddiad a phenderfynu a oedd trosedd wedi'i chyflawni y câr'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau eu cofnodi fel trosedd. Erbyn hyn caiff trosedd ei chofnodi fel y'i disgrifir gan yr aelod o'r cyhoedd pan fydd yn rhoi gwybod amdani. Mae hyn yn sicrhau bod y drosedd yn cael ei dosbarthu ar unwaith sy'n golygu bod modd ymateb iddi ar unwaith. Mae hyn hefyd yn golygu y bydd nifer y digwyddiadau a gofnodir yn nes at y lefelau gwirioneddol o droseddau. Mae Arolygiaeth Ei Mawrhydi yn nodi bod y dull hwn o weithredu yn "arfer da" ac yn bodloni gofynion y Safon Cofnodi Troseddau Genedlaethol.
5. Lle y dangosir newidiadau canrannol, mae'r rhain yn cymharu hen ddata â data newydd. Mae newid canrannol yn dangos y newid mewn gwerth dros amser ac fe'i cyfrifir drwy ddidynnu'r hen werth o'r gwerth newydd a rhannu â'r hen werth. Yn yr adroddiad hwn, mae newidiadau canrannol wedi'u defnyddio lle y bo'n briodol i ddangos newidiadau dros amser. Fodd bynnag, nid yw newidiadau canrannol wedi'u dangos lle mae'r niferoedd yn fach (fel arfer lle mae'r nifer yn is na 100) am y gallant fod yn gamarweiniol.
6. Daw'r data poblogaeth a ddefnyddir o Gyfrifiad 2011.

7. Hon yw'r bedwaredd flwyddyn y mae data Monitro Cydraddoldeb wedi'u cyhoeddi i'r lefel hon o fanylder. Mewn nifer o feysydd, bydd y gwaith o gasglu data a sicrhau bod y data hynny yn gyflawn yn parhau i gael ei ddatblygu a bydd y wybodaeth yn parhau i ddatblygu dros y misoedd a'r blynnyddoedd i ddod.
8. Mae Ansawdd Data yn ystyriaeth o fewn unrhyw system rheoli TG integredig ac mae'r Heddlu yn parhau i adolygu'r ffordd y mae'n rhoi prosesau a gweithdrefnau ar waith er mwyn ceisio sicrhau bod data mor gyson a chywir â phosibl.

Defnyddir data cydraddoldeb i lywio blaenoriaethau ar gyfer Heddlu De Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru.

Gwybodaeth am Gydraddoldeb

1. Dioddefwyr Troseddau

Dioddefwyr Troseddau yn ôl yr Heddlu a'r Uned Reoli Sylfaenol

Troseddau

Blwyddyn	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ogleddol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ddwyreiniol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ganolog	Yr Uned Reoli Sylfaenol Orllewinol	Heddlu De Cymru
2012-13	16,081	31,652	13,752	23,043	84,528
2013-14	16,127	30,006	13,728	22,271	82,132
2014-15	18,539	31,868	14,893	24,088	89,388
% Newid rhwng 2013-14 a 2014-15*	15.0%	6.2%	8.5%	8.2%	8.8%

* mae'r cynnydd yn adlewyrchu effaith cofnodi troseddau yn y tarddle (cyfeiria adran D at hyn)

Dioddefwyr** Troseddau

Blwyddyn	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ogleddol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ddwyreiniol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ganolog	Yr Uned Reoli Sylfaenol Orllewinol	Heddlu De Cymru
2012-13	10,364	21,323	8,786	15,216	55,689
2013-14	9,800	19,038	8,680	13,864	51,382
2014-15	11,362	19,826	9,155	14,946	55,289
% Newid rhwng 2013-14 a 2014-15	15.9%	4.1%	5.5%	7.8%	7.6%

**Nodir nifer y dioddefwyr drwy gyfrif yr unigolion hynny sydd wedi'u cofnodi fel rhai 'tramgwyddedig' ar system rheoli cofnodion yr heddlu. Mae'r nifer hon yn llai na chyfanswm nifer y troseddau oherwydd gall troseddau fod yn a) troseddau heb ddioddefwr b) troseddau lle mae'r dioddefwyr yn fusnesau neu'n sefydliadau eraill neu c) troseddau lle nad yw'r dioddefwyr, o bosibl, wedi'u categorio fel rhai 'tramgwyddedig' ar system rheoli cofnodion yr Heddlu.

Dioddefwyr Troseddau yn ôl Grŵp Oedran yn 2014-15

Grŵp oedran	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ogleddol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ddwyreiniol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ganolog	Yr Uned Reoli Sylfaenol Orllewinol	Heddlu De Cymru
O dan 10	1.6%	1.1%	1.1%	1.2%	1.2%
10 - 17	6.9%	5.4%	7.5%	6.0%	6.2%
18 - 24	14.5%	21.3%	13.6%	16.3%	17.3%
25 - 44	41.7%	43.4%	39.0%	40.9%	41.6%
45 - 65	26.7%	22.6%	29.1%	27.0%	25.7%
65+	7.6%	5.4%	8.7%	7.9%	7.1%
Anhysbys/Heb ei Ddatgan	1.0%	0.9%	0.9%	0.7%	0.9%
Cyfanswm	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%


Dioddefwyr Troseddau yn ôl Ethnigrwydd yn 2014-15

Ethnigrwydd	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ogleddol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ddwyreiniol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ganolog	Yr Uned Reoli Sylfaenol Orllewinol	Heddlu De Cymru
Asiaidd	0.6%	2.8%	0.7%	1.1%	1.5%
Du	0.2%	1.4%	0.3%	0.4%	0.7%
Tsieineaidd neu Grŵp Ethnig Arall	0.4%	0.7%	0.3%	0.4%	0.5%
Cymysg	0.1%	1.0%	0.3%	0.3%	0.5%
Gwyn	46.8%	38.3%	45.7%	42.4%	42.4%
Anhysbys/Heb ei Ddatgan	51.8%	55.9%	52.7%	55.5%	54.4%
Cyfanswm	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%

Dioddefwyr Troseddau yn ôl Rhyw yn 2014-15

Rhyw	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ogleddol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ddwyreiniol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ganolog	Yr Uned Reoli Sylfaenol Orllewinol	Heddlu De Cymru
Merched	48.9%	46.4%	50.0%	46.5%	47.5%
Dynion	50.2%	52.7%	49.3%	52.8%	51.7%
Arall	0.1%	0.1%	0.1%	0.1%	0.1%
Anhysbys/Heb ei Ddatgan	0.8%	0.8%	0.7%	0.6%	0.7%
Cyfanswm	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%

Boddhad Dioddefwyr â'r Gwasanaeth a Ddarperir



Noder: Dengys y siart hon y lefel boddhad dros gyfnod treigl o 12 mis. Golyga hyn fod pob pwynt ar y siart yn ymwneud â'r 12 mis o ddata hyd at ac yn cynnwys y mis hwnnw h.y. mae pwynt data mis Ionawr 2013 yn ymwneud â boddhad dioddefwyr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Chwefror 2012 a mis Ionawr 2013. Mae hyn yn ein galluogi i weld y duedd sylfaenol drwy ddileu effaith unrhyw amrywiadau tymhorol.

2. Troseddau casineb

Defnyddir y term Troseddau Casineb o fewn Heddlu De Cymru i gyfeirio at ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â chasineb a throseddau casineb. Mae Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yn diffinio digwyddiad casineb fel “*Unrhyw ddigwyddiad, a all fod yn gyfystyr â throredd neu ddim, y mae'r dioddefwr neu unrhyw unigolyn arall yn ystyried ei fod wedi'i gymhell gan ragfarn neu gasineb.*” Diffinnir trosedd casineb yn benodol fel “*Unrhyw ddigwyddiad, sy'n gyfystyr â throredd, y mae'r dioddefwr neu unrhyw unigolyn arall yn ystyried ei fod wedi'i gymhell gan ragfarn neu gasineb.*”

Rydym yn dilyn canllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref ac yn monitro troseddau casineb yn ffurfiol yn ôl y pum categori canlynol – anabledd, ffydd, hil, cyfeiriadedd rhywiol a thrawsrywedd.

Mae ymdrin â phob agwedd ar Droseddau Casineb yn flaenoriaeth allweddol i Dde Cymru a rhoddir cryn sylw i Droseddau Casineb yng Nghynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu ar gyfer Heddlu De Cymru a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb ar y Cyd 2015 - 2018. Mae pwyslais clir ar yr angen i gynyddu nifer y troseddau casineb y rhoddir gwybod amdanynt a gwella lefelau boddhad dioddefwyr troseddau casineb.

Mae gan Heddlu De Cymru Bolisi a Chanllawiau ar Droseddau Casineb sy'n rhoi arweiniad clir i holl swyddogion a staff Heddlu De Cymru ar nodi troseddau casineb ac yn amlinellu cyfrifoldebau a gweithdrefnau wrth ddelio â dioddefwyr.

Mae'r gwaith o ddatblygu, darparu ac adolygu Hyfforddiant Troseddau Casineb yn parhau gyda hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar gyfer swyddogion a staff gan ddefnyddio dulliau gwahanol gan gynnwys cyrsiau hyfforddi ffurfiol a gwasanaethau e-ddysgu.

Mae ymyrryd yn gynnar wrth ymateb i Droseddau Casineb yn hollbwysig i sicrhau bod y rhai sy'n cyflawni troseddau o'r fath yn cael eu nodi ac yr ymdrinnir â hwy a bod dioddefwyr yn cael cymorth priodol. Felly, mae pwysleisio pwysigrwydd cydnabod yr agwedd casineb ar ddigwyddiad a'r effaith y mae hyn yn ei chael nid yn unig ar yr unigolyn a'i deulu ond ar y gymuned ehangach, a all arwain at chwalu cydlyniant cymunedol, wedi bod yn elfen allweddol o'r hyfforddiant.

Drwy ein strwythur Plismona yn y Gymdogaeth, ymgysylltu â'r gymuned o dan reolaeth yr Arolygydd Plismona Lleol yw'r egwyddor sylfaenol sy'n sail i'r ffordd y mae Heddlu De Cymru, ynghyd â'n Hasiantaethau partner, yn darparu gwasanaeth er mwyn sicrhau bod De Cymru yn ddiogel. Bob dydd mae Timau Plismona yn y Gymdogaeth yn rhyngweithio ag aelodau o'r gymuned er mwyn mynd i'r afael â rhagfarn a stereoteipio ac mae Swyddogion Troseddau Casineb arbenigol yn ymweld ac yn siarad â dioddefwyr troseddau casineb gan gynnig cyngor a chymorth.

Mae cefnogi dioddefwyr yn agwedd sylfaenol ar ein hymateb i Droseddau Casineb. Mae'r swyddog sy'n ymateb i adroddiad am Drosedd Casineb yn cynnal asesiad risg gyda'r dioddefwyr ac mae canlyniad yr asesiad hwn yn helpu i nodi'r ymateb priodol a'r cymorth a roddir i'r dioddefwr.

Mae Swyddogion Troseddau Casineb yn rhoi cymorth arbenigol wrth weithio gyda'r Swyddog yn yr Achos ac asiantaethau partner. Mae llawer o wahanol fesurau cymorth y gellir eu hystyried a chânt eu nodi gan Gynllun Gweithredu a oruchwylir gan yr Arolygydd Plismona Lleol a chyfarfod o Grŵp Adolygu Troseddau Casineb Uned Reoli Sylfaenol a gadeirir gan aelod o'r Uwch Dîm Rheoli. Mae'r cyfarfodydd hyn yn galluogi uwch reolwyr i graffu ar achosion o Droseddau Casineb yn fanwl ac yn sicrhau y caiff yr holl gamau angenrheidiol eu cymryd.

Mae Heddlu De Cymru hefyd wedi datblygu Cynllun Datblygu Troseddau Casineb sy'n adlewyrchu nifer o argymhellion Cenedlaethol a Lleol ac a gaiff ei roi ar waith dros gyfnod o dair blynedd.

Mae gan Heddlu De Cymru a Gwasanaeth Erlyn y Goron a phartneriaid eraill Banel Craffu ar Droseddau Casineb sy'n cyfarfod yn rheolaidd i adolygu achosion o droseddau casineb er mwyn nodi dysgu sefydliadol.

Cwblhawyd Papur Safbwynt ar Droseddau Casineb ym mis Mawrth 2015 sy'n cael ei ddefnyddio, ar y cyd â Phapurau Strategol ar ddelio â Throseddau Casineb a gyhoeddwyd gan y Coleg Plismona a Llywodraeth Cymru, fel sail i gynllun strategol i ddelio â Throseddau Casineb dros y ddwy flynedd nesaf.

Troseddau a Digwyddiadau Casineb

Dengys y tabl canlynol bum nodwedd warchodedig digwyddiadau sy'n gysylltiedig â chasineb (a throseddau casineb) a gaiff eu cofnodi a'u monitro gan yr Heddlu fel rhan o'i ddyletswydd statudol:

Blwyddyn	Digwyddiadau			Troseddau**		
	2013-14	2014-15	% Newid	2013-14	2014-15	% Newid
Hil	1,530	1,572	2.7%	878	1,102	25.5%
Cyfeiriadedd Rhywiol	312	376	20.5%	161	240	49.1%
Anabledd	276	286	3.6%	100	137	37.0%
Crefydd a Chred	99	98	-1.0%	56	66	17.9%
Trawsrywedd	61	49	-19.7%	29	25	-13.8%
Casineb*	2,175	2,285	5.1%	1,160	1,501	29.4%

* Gall un digwyddiad casineb ymwneud ag un nodwedd warchodedig neu fwy. Felly, nid yw'n rhesymegol adio digwyddiadau sy'n ymwneud â mwy nag un nodwedd warchodedig wahanol. Mae'r un peth yn wir yn achos troseddau casineb.

**mae'r cynnydd yn adlewyrchu effaith cofnodi troseddau yn y tarddle (cyfeiria adran D at hyn)

Digwyddiadau sy'n gysylltiedig â Hil

Blwyddyn	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ogleddol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ddwyrainol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ganolog	Yr Uned Reoli Sylfaenol Orllewinol	Heddlu De Cymru
2012-13	244	609	157	408	1,418
2013-14	303	664	160	403	1530
2014-15	353	696	147	376	1,572
% Newid rhwng 2013-14 a 2014-15	16.5%	4.8%	-8.1%	-6.7%	2.7%

Digwyddiadau yn ymwneud â Chyfeiriadedd Rhywiol

Blwyddyn	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ogleddol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ddwyrainol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ganolog	Yr Uned Reoli Sylfaenol Orllewinol	Heddlu De Cymru
2012-13	74	97	39	91	290
2013-14	73	111	44	83	310
2014-15	104	134	52	86	376
% Newid rhwng 2013-14 a 2014-15	**	**	**	**	21.3%

**Ni roddwyd y canrannau am nad ydynt yn ystyrlon gyda niferoedd bach

Digwyddiadau yn ymwneud â Chrefydd a Chred

Blwyddyn	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ogleddol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ddwyreiniol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ganolog	Yr Uned Reoli Sylfaenol Orllewinol	Heddlu De Cymru
2012-13	5	22	2	18	46
2013-14	14	36	12	37	95
2014-15	23	42	10	23	98
% Newid rhwng 2013-14 a 2014-15	**	**	**	**	3.2%*

*Dylid dehongli'r canrannau yn ofalus am fod y niferoedd yn fach

**Ni roddwyd y canrannau am nad ydynt yn ystyrlon gyda niferoedd bach

Digwyddiadau yn ymwneud ag Anabledd

Blwyddyn	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ogleddol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ddwyreiniol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ganolog	Yr Uned Reoli Sylfaenol Orllewinol	Heddlu De Cymru
2012-13	63	43	42	113	260
2013-14	101	65	37	73	273
2014-15	115	75	40	56	284
% Newid rhwng 2013-14 a 2014-15	**	**	**	**	4.0%

**Ni roddwyd y canrannau am nad ydynt yn ystyrlon gyda niferoedd bach

Digwyddiadau yn ymwneud â Thrawsrywedd

Blwyddyn	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ogleddol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ddwyreiniol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ganolog	Yr Uned Reoli Sylfaenol Orllewinol	Heddlu De Cymru
2012-13	9	11	7	9	35
2013-14	9	11	13	28	61
2014-15	10	19	8	12	49
% Newid rhwng 2013-14 a 2014-15	**	**	**	**	-19.7%*

*Dylid dehongli'r ganran yn ofalus am fod y niferoedd yn fach

**Ni roddwyd y canrannau am nad ydynt yn ystyrlon gyda niferoedd bach

Digwyddiadau Troseddau Casineb

Roedd y digwyddiadau canlynol sy'n gysylltiedig â chasineb yn bodloni diffiniad Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref o drosedd.


Blwyddyn	2013-14	2014-15	% Newid*
Trais yn erbyn yr unigolyn	987	1,278	29.5%
Trosedd rywiol	3	4	**
Lladrad	4	4	**
Bwrglera mewn tŷ preswyl	3	6	**
Bwrglera mewn mangre arall	0	2	**
Dwyn cerbyd modur	1	0	**
Dwyn o gerbyd modur	3	3	**
Mathau eraill o ddwyn	20	16	**
Difrod troseddol	131	167	27.5%
Troseddau eraill yn ymwneud â chyffuriau	0	1	**
Troseddau hysbysadwy eraill	8	20	**
Cyfanswm	1160	1501	29.4%

* mae'r cynnydd yn adlewyrchu effaith cofnodi troseddau yn y tarddle (cyfeiria adran D at hyn)

**Ni roddwyd y canrannau am nad ydynt yn ystyrlon gyda niferoedd bach

Lefelau Boddhad Dioddefwyr

Boddhad Dioddefwyr: Y Profiad Cyfan - Dioddefwyr Digwyddiadau Hiliol a Throseddau Casineb



Noder: Dengys y siart hon y lefel boddhad dros gyfnod treigl o 12 mis Golyga hyn fod pob pwynt ar y siart yn ymwneud â'r 12 mis o ddata hyd at ac yn cynnwys y mis hwnnw h.y. mae pwynt data mis Ionawr 2013 yn ymwneud â boddhad dioddefwyr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Chwefror 2012 a mis Ionawr 2013. Mae hyn yn ein galluogi i weld y duedd sylfaenol drwy ddileu effaith unrhyw amrywiadau tymhorol.

3. Cam-drin Domestig

“Mae Cam-drin Domestig yn unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad sy'n rheoli eraill, ymddygiad cymhellol neu ymddygiad bygythiol, trais neu gam-drin rhwng unigolion 16 oed a throsodd, sydd yn bartneriaid agos neu a fu'n bartneriaid agos neu'n aelodau o'r teulu, waeth beth fo'u rhyw neu rywioldeb”.

Mae hyn yn cwmpasu, ond nid yw'n gyfyngedig i, y mathau canlynol o gam-drin: *“Seicolegol, Corfforol, Rhywiol, Ariannol ac Emosiynol”.*

Diffinnir ymddygiad sy'n rheoli eraill fel a ganlyn: *“Amrywiaeth o weithredoedd y bwriedir iddynt wneud unigolyn yn israddol a/neu'n ddibynol drwy ei ynysu o ffynonellau cymorth, manteisio ar ei adnoddau a'i alluoedd er mwyn sicrhau mantais bersonol, ei amddifadu o'r modd sydd ei angen i fod yn annibynnol, gwrthsefyll a dianc a rheoleiddio ei ymddygiad bob dydd”.*

Diffinnir ymddygiad cymhellol fel a ganlyn: *“Gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosod, bygwth, bychanu a dychryn neu fath arall o gam-drin a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu ddychryn y dioddefwr”.*

Diffinnir aelodau o'r teulu fel a ganlyn: *“Mam, tad, mab, merch, brawd, chwaer a mam-gu a thad-cu, p'un a ydynt yn berthnasau uniongyrchol, yn deulu-yng-nghyfraith neu'n llysdeulu”.*

Mae'r diffiniad hwn, er nad yw'n ddiffiniad cyfreithiol, yn cynnwys trais ar sail 'anrhydedd', priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod.

Mae "trais ar sail anrhydedd" yn cyfeirio at drosedd neu ddigwyddiad, a gyflawnwyd neu a all fod wedi'i chyflawni/gyflawni er mwyn diogelu neu amddiffyn anrhydedd y teulu a/neu'r gymuned'.

Gellir gwahaniaethu rhwng trais ar sail anrhydedd a mathau eraill o drais gan ei fod yn cael ei gyflawni yn aml â rhywfaint o gymeradwyaeth gan aelodau eraill o'r teulu ac unigolion o'r un diwylliant yn y gymuned oddi amgylch a/neu drwy gydgyllwynio â hwy i ryw raddau.

Mae priodas dan orfod yn briodas lle nad yw o leiaf un parti yn cydsynio i briodi a lle y ceir rhywfaint o orfodaeth. O dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 mae gorfodi rhywun i briodi a thorri gorchymyn amddiffyn rhag priodas dan orfod yn droseddau. Daeth y darpariaethau ynglŷn â phriodasau dan orfod i rym ym mis Mehefin 2014.

Mae Heddlu De Cymru yn cydnabod bod trais ar sail anrhydedd a phriodas dan orfod yn achosion sylfaenol o dorri Hawliau Dynol ac mae ganddo brosesau asesu risg a chynllunio diogelwch penodol ar gyfer trais ar sail anrhydedd a phriodas dan orfod.

Mae Heddlu De Cymru yn ymrwymedig i wneud y canlynol:

- Datblygu ymatebion i gam-drin domestig sy'n cadw pobl yn ddiogel
- Ymchwilio i bob adroddiad yn effeithiol, er mwyn dod â throseddwyd gerbron llys a'u dwyn i gyfrif am eu gweithredoedd heb wneud tybiaethau ynghylch unrhyw unigolyn neu gymuned benodol na'i stereoteipio na'i stigmatiddio.

- Delio â dioddefwyr yn effeithiol a thrwy gynnal prosesau asesu risg trylwyr gyda dioddefwyr er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y gwneir niwed iddynt yn y dyfodol, sy'n cynnwys dynladdiad, anafiadau difrifol a gweithredoedd treisgar.
- Rhoi lefel o wasanaeth i ddioddefwyr sy'n rhoi hyder iddynt roi gwybod am ddigwyddiadau

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Heddlu De Cymru wedi rhoi'r Cynllun Datgelu Trais Domestig ar waith. Prif nod y cynllun hwn yw cyflwyno gweithdrefnau cydnabyddedig a chyson ar gyfer datgelu gwybodaeth a fydd yn galluogi unigolyn i wneud dewis hyddysg ynghylch a ddylai fynd ymlaen â pherthynas ag unigolyn sydd wedi ymddwyn yn dreisgar yn y gorffennol, gan alluogi dioddefwyr i'w diogelu eu hunain a'u plant.

At hynny, mae Hysbysiad/Gorchmynion Amddiffyn rhag Trais Domestig wedi'u cyflwyno, sy'n amddiffyn dioddefwyr drwy alluogi'r heddlu ac ynadon i roi mesurau amddiffyn ar waith ar unwaith yn dilyn achos o drais domestig. Mae Heddlu De Cymru bellach yn gwneud cais am orchmynion o'r fath lle y bo'n briodol.

Darperir hyfforddiant arbenigol i nifer o swyddogion sy'n cyflawni rolau allweddol. Mae'r hyfforddiant yn galluogi swyddogion i nodi achosion o drais ar sail anrhydedd a phriodas dan orfod, cynnal asesiadau risg a rhoi cyngor tactegol i oruchwylwyr a rheolwyr ar reoli achosion ac ymchwilio iddynt a mesurau cymorth i ddioddefwyr.

Cyhoeddir Canllawiau a Gweithdrefnau Cynhwysfawr ar gyfer yr holl bersonél sy'n ymwneud ag ymchwilio i achosion o gam-drin domestig, trais ar sail anrhydedd a phriodas dan orfod a'u rheoli ac ymateb i anghenion dioddefwyr.

Mae Heddlu De Cymru yn parhau i weithio'n agos gydag elusennau a sefydliadau cymorth i ddioddefwyr cenedlaethol a lleol sy'n darparu gwasanaethau cymorth gwerthfawr i ddioddefwyr, gan gynnwys llety lloches, er mwyn darparu'r ymateb mwyaf effeithiol i ddioddefwyr.

Yn 2015, lanswyd 'Cynllun Heddlu De Cymru ar gyfer Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched'. Mae hyn yn cynnwys cynllun gweithredu tair blynedd cynhwysfawr i gynyddu nifer yr achosion o drais sy'n cael eu nodi'n gynnar ac annog atal trais yn erbyn menywod a merched. Mae hefyd yn canolbwyntio ar wella'r ymateb sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr. Datblygwyd y Cynllun ar y cyd gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i gydnabod yr effaith anghymesur y mae cam-drin domestig, trais rhywiol, trais ar sail 'anrhydedd', priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod yn ei chael ar fenywod a merched.

Troseddau Cam-drin Domestig yn ôl yr Heddlu a'r Uned Reoli Sylfaenol

Roedd y digwyddiadau canlynol sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig yn bodloni diffiniad Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref o drosedd.

Troseddau Cam-drin Domestig

Blwyddyn	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ogleddol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ddwyreiniol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ganolog	Yr Uned Reoli Sylfaenol Orllewinol	Heddlu De Cymru
2012-13	1,653	1,931	1,175	1,811	6,570
2013-14	1,792	2,072	1,481	1,925	7,270
2014-15	2,405	2,629	1,762	2,583	9,396
% Newid rhwng 2013-14 a 2014-15*	34.2%	26.9%	19.0%	34.2%	29.2%

* mae'r cynnydd yn adlewyrchu effaith cofnodi troseddau yn y tarddle (cyfeiria adran D at hyn)

Dioddefwyr Troseddau Cam-drin Domestig

Blwyddyn	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ogleddol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ddwyreiniol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ganolog	Yr Uned Reoli Sylfaenol Orllewinol	Heddlu De Cymru
2012-13	1,107	1,291	816	1,209	4,423
2013-14	1,423	1,672	1,176	1,553	5,824
2014-15	1,891	2,091	1,404	2,013	7,399
% Newid rhwng 2013-14 a 2014-15	32.9%	25.1%	19.4%	29.6%	27.0%

Dioddefwyr Troseddau Cam-drin Domestig yn ôl Grŵp Oedran yn 2014-15

Grŵp oedran	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ogleddol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ddwyreiniol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ganolog	Yr Uned Reoli Sylfaenol Orllewinol	Heddlu De Cymru
O dan 16 oed	3.4%	5.5%	3.6%	3.4%	4.0%
16 - 17	2.6%	3.3%	3.6%	2.7%	3.0%
18 - 24	20.5%	24.0%	21.9%	19.6%	21.5%
25 - 44	53.7%	50.7%	48.2%	53.0%	51.6%
45 - 64	16.4%	13.9%	19.7%	18.1%	16.8%
65+	3.0%	2.4%	2.6%	3.0%	2.7%
Anhysbys/Heb ei Ddatgan	0.4%	0.2%	0.2%	0.2%	0.3%
Cyfanswm	100%	100%	100%	100%	100%

Dioddefwyr Troseddau Cam-drin Domestig yn ôl Ethnigrwydd yn 2014-15

Ethnigrwydd Hunanddiffiniedig	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ogleddol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ddwyreiniol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ganolog	Yr Uned Reoli Sylfaenol Orllewinol	Heddlu De Cymru
Asiaidd	0.1%	2.5%	0.6%	0.7%	1.0%
Du	0.2%	1.5%	0.1%	0.3%	0.6%
Tsieineaidd neu Grŵp Ethnig Arall	0.1%	1.4%	0.5%	0.3%	0.6%
Cymysg	0.3%	0.5%	0.1%	0.3%	0.3%
Gwyn	55.1%	49.1%	54.6%	52.6%	52.6%
Anhysbys/Heb ei Ddatgan	44.3%	45.0%	44.1%	45.8%	44.8%
Cyfanswm	100%	100%	100%	100%	100%

Dioddefwyr Troseddau Cam-drin Domestig yn ôl Rhyw yn 2014-15

Rhyw	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ogleddol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ddwyreiniol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ganolog	Yr Uned Reoli Sylfaenol Orllewinol	Heddlu De Cymru
Merched	77.7%	77.7%	75.0%	77.3%	77.1%
Dynion	22.3%	22.3%	25.0%	22.7%	22.9%
Cyfanswm	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%

Digwyddiadau Ar Sail Anrhydedd

Blwyddyn	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ogleddol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ddwyreiniol	Yr Uned Reoli Sylfaenol Ganolog	Yr Uned Reoli Sylfaenol Orllewinol	Heddlu De Cymru
2012-13	3	35	0	15	53
2013-14	2	57	4	13	76
2014-15	1	75	6	10	92
% Newid rhwng 2013-14 a 2014-15	**	**	**	**	21.1%*

*Dylid dehongli'r canrannau yn ofalus am fod y niferoedd yn fach

**Ni roddwyd y canrannau am nad ydynt yn ystyrlon gyda niferoedd bach

Mae achosion o drais ar sail anrhydedd a gofnodwyd yn cynnwys y rhai lle nad oes, o bosibl, ond risg ganfyddedig y caiff trosedd ei chyflawni a lle mae prosesau diogelu wedi'u rhoi ar waith er mwyn atal troseddu.

4. Stopio a Chwilio

Dechreuodd yr heddlu roi system o gofnodi data stopio a chwilio ar ddyfeisiau symudol ar waith yn 2013. Mae'r broses yn mynd rhagddi o hyd. Mae'r broses o drosglwyddo i'r system newydd wedi effeithio dros dro ar ansawdd a chyflawnder data stopio a chwilio ond mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud o ran gwella ansawdd data.

Caiff ystadegau Stopio a Chwilio eu hadolygu a'u dadansoddi'n rheolaidd drwy Fwrdd Adolygu Stopio a Chwilio Heddlu De Cymru. Cadeirir y bwrdd hwn gan Brif Gwnstabl Cynorthwyol ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth o Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau. Mae'r Comisiynydd hefyd yn gweithio i ddatblygu dulliau eraill o graffu ar weithgarwch stopio a chwilio, gan gynnwys cynnwys y gymuned yn y gwaith o ddadansoddi ffurflenni stopio a chwilio wedi'u cwblhau.

Achosion o Stopio a Chwilio - Grŵp Oedran

Blwyddyn	Nifer yr Achosion o Stopio a Chwilio		Achosion o Stopio a Chwilio Fesul 1,000 o'r Boblogaeth	
	2013-14	2014-15	2013-14	2014-15
Grŵp Oedran				
10 - 17	2,856	1,743	19.0	11.6
18 - 24	5,310	3,307	46.0	28.7
25 - 44	6,233	4,351	43.8	30.6
45 - 65	1,006	721	3.0	2.1
65+	25	18	0.1	0.1
Pob Un	16,187	10,502	71.8	46.6

Noder: cafwyd 757 o achosion o stopio a chwilio yn 2013-14 a 360 yn 2014-15 lle roedd yr oedran yn anhysbys ac nis cynhwysir ac eithrio yn y rhes lle y nodir y cyfanswm. Mae hyn i'w briodoli i'r effaith dros dro ar ansawdd data wrth drosglwyddo i'r system o gofnodi data ar ddyfeisiau symudol.

Achosion o Stopio a Chwilio – Ethnigrwydd

Blwyddyn	Nifer yr Achosion o Stopio a Chwilio		Achosion o Stopio a Chwilio Fesul 1,000 o'r Boblogaeth yn ôl Grŵp Oedran	
	2013-14	2014-15	2013-14	2014-15
Ethnigrwydd				
Asiaidd	312	171	7.0	3.8
Du	360	170	28.0	13.2
Tsieineaidd neu Grŵp Ethnig Arall	99	115	9.4	11.0
Cymysg	222	47	12.4	2.6
Gwyn	11,884	7,279	9.8	6.0
Heb ei Ddatgan	1,062	1,899	Dd/G	Dd/G
Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig	993	503	11.6	5.9
Pob Un	16,187	10,502	12.5	8.1


Noder: Cafwyd 2,248 o achosion o stopio a chwilio yn 2013-14 a 821 yn 2014-15 lle roedd yr ethnigrwydd yn anhysbys ac nis cynhwysir ac eithrio yn y rhes lle y nodir y cyfanswm. Mae hyn i'w briodoli i'r effaith dros dro ar ansawdd data wrth drosglwyddo i'r system o gofnodi data ar ddyfeisiau symudol.

Achosion o Stopio a Chwilio – Rhyw

Blwyddyn	Nifer yr Achosion o Stopio a Chwilio		Achosion o Stopio a Chwilio Fesul 1,000 o'r Boblogaeth yn ôl Rhyw	
	2013-14	2014-15	2013-14	2014-15
Ethnigrwydd				
Merched	1,367	1,143	2.1	1.7
Dynion	13,980	8,968	22.0	14.1
Pob Un	16,187	10,502	12.5	8.1


Noder: Cafwyd 840 o achosion o stopio a chwilio yn 2013-14 a 391 yn 2014-15 lle roedd y rhyw yn anhysbys ac nis cynhwyswyd ac eithrio yn y rhes lle y nodir y cyfanswm. Mae hyn i'w briodoli i'r effaith dros dro ar ansawdd data wrth drosglwyddo i'r system o gofnodi data ar ddyfeisiau symudol.

Canlyniadau Achosion o Stopio a Chwilio yn ôl Ethnigrwydd 2013-14




Mae Arall yn cynnwys canlyniadau megis rhybuddion canabis, hysbysiadau cosb benodedig, hysbysiadau cosb am anhrefn, cyngor llafar, cyflwyno adroddiad gwysio

Canlyniadau Achosion o Stopio a Chwilio yn ôl Ethnigrwydd 2014-15




Mae Arall yn cynnwys canlyniadau megis rhybuddion canabis, hysbysiadau cosb benodedig, hysbysiadau cosb am anhrefn, cyngor llafar, cyflwyno adroddiad gwysio

Canlyniadau Achosion o Stopio a Chwilio yn ôl Grŵp Oedran 2013-14



Mae Arall yn cynnwys canlyniadau megis rhybuddion canabis, hysbysiadau cosb benodedig, hysbysiadau cosb am anhrefn, cyngor llafar, cyflwyno adroddiad gwysio

Canlyniadau Achosion o Stopio a Chwilio yn ôl Grŵp Oedran 2014-15



Mae Arall yn cynnwys canlyniadau megis rhybuddion canabis, hysbysiadau cosb benodedig, hysbysiadau cosb am anhrefn, cyngor llafar, cyflwyno adroddiad gwysio

5. Y ddalfa

Mae ystyried anghenion amrywiol yn y ddalfa yn un o'r amcanion cydraddoldeb yng Nghynllun Gweithredu Cydraddoldeb ar y Cyd Heddlu De Cymru (2015-2018). Mae angen sicrhau y caiff anghenion amrywiol pawb a gedwir yn y ddalfa eu diwallu a nod yr amcan yw helpu i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau hefyd wedi sefydlu prosiect er mwyn gweithio gyda chyrff ieuchyd i leihau nifer y bobl â chyflyrau ieuchyd meddwl a gedwir yn nalfa'r heddlu drwy sicrhau bod mannau diogel mwy priodol ar gael iddynt. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl hefyd yn gweithio i gefnogi Prosiect Braenaru i Ferched De Cymru sydd â'r nod o ddarparu'r ymateb partneriaeth mwyaf priodol i ferched yn y System Cyfiawnder Troseddol. Yn yr un modd mae'r Comisiynydd yn cyflawni prosiect i arallgyfeirio pobl ifanc rhwng 18 a 25 oed o'r system cyfiawnder troseddol.

Troseddwyr yn y Ddalfa

Dengys yr adran hon ddadansoddiad o droseddwyr a gadwyd yn y ddalfa yn ardal Heddlu De Cymru yn ôl rhyw. Mae'n edrych ar oedran, ceisiadau am gyfreithwyr a mathau o drosedd.

Niferoedd yn ôl Grŵp Oedran

Nifer yr Unigolion a Arestwyd yn ôl Grŵp Oedran	10-17	18-20	21+	Cyfanswm
2013-14	3,179	3,973	29,254	36,406
2014-15	2,866	3,502	28,073	34,441
% Newid	-9.8%	-11.9%	-4.0%	-5.4%

Canran yn ôl Grŵp Oedran

% yr Unigolion a Arestwyd yn ôl Grŵp Oedran	10-17	18-20	21+	Cyfanswm
2013-14	8.7%	10.9%	80.4%	100.0%
2014-15	8.3%	10.2%	81.5%	100.0%

Niferoedd yn ôl Rhyw

Nifer yr Unigolion a Arestwyd yn ôl Rhyw	Merched	Dynion	Anhysbys	Cyfanswm
2013-14	6,686	29,709	11	36,406
2014-15	6,502	27,913	26	34,441
% Newid	-2.8%	-6.0%	**	-5.4%

** ni roddwyd y ganran am nad ydynt yn ystyrlon gyda niferoedd bach

Canran yn ôl Rhyw

